CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

RHYBUDD STATUDOL

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Ynys Môn ac Esgobaeth Bangor (Yr Eglwys yng Nghymru), ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig, gan ddilyn eu grymoedd priodol, ar y cyd yn cynnig i beidio â chefnogi Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel, Ynys Môn LL60 6HB), sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ysgol dan reolaeth gwirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i sefydlu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle Ysgol Parc y Bont ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed. Bydd Ysgol Brynsiencyn yn cael ei ffedereiddio gydag ysgol arall.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ac Esgobaeth Bangor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn. (www.ynysmon.gov.uk)

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2018.

Bydd yr ysgol newydd a gynigir yn Ysgol Parc y Bont yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg. Cyngor Sir Ynys Môn (yr awdurdod lleol) fydd yr awdurdod derbyn. 14 fydd y nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4-11 yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu. Bydd y meithrin yn darparu lle i 14 o blant ar sail rhan amser. Capasiti'r ysgol newydd fydd 104 disgybl.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Parc y Bont yn y flwyddyn cyn i'r ysgol newydd agor yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg newydd, yn amodol ar ddewis y rhieni.

Mae'r polisi cludiant ysgol gyfredol yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n cwrdd â phob un o'r meini prawf canlynol:

a) maent o oedran ysgol orfodol;
b) maent yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol a bennir iddynt gan yr Awdurdod Addysg Lleol;
c) mae'r daith o'r cartref i'r ysgol yn fwy na 2 filltir.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 15 Gorffennaf 2016. Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Rheolwr Rhaglen, Adran Dysgu Gydol Oes, Swyddfa'r Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

Arwyddwyd

DELYTH MOLYNEUX (Pennaeth Dysgu)
Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn

Canon Robert Townsend
Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor

Dyddiad – 17 Mehefin 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad, yn hytrach, ymgais ydyw i gynnig eglurhad)

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Parc y Bont yn ysgol dan reolaeth gwirfoddol gyda chymeriad crefyddol yr Eglwys yng Nghymru. Cynigir cau Ysgol Parc y Bont fel ysgol dan reolaeth gwirfoddol a sefydlu ysgol gymunedol heb gymeriad crefyddol ar y safle yn yr adeiladau presennol.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

STATUTORY NOTICE

Notice is given in accordance with section 41 and 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that the Isle of Anglesey County Council and the Diocese of Bangor (Church in Wales), having consulted such persons as required, jointly propose, in pursuance of their respective powers, to discontinue Ysgol Parc y Bont (Llanddaniel LL60 6HB) which is currently maintained by Anglesey County Council. as a Church in Wales voluntary controlled school and to establish a Welsh medium community primary school to be maintained by Anglesey County Council at Ysgol Parc y Bont for boys and girls aged 3-11. Ysgol Brynsiencyn will be federated with another school.

The Isle of Anglesey County Council and the Diocese of Bangor undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn is available on the Isle of Anglesey County Council's website. (www.anglesey.gov.uk)

It is proposed to implement this proposal on 1 September 2018.

The proposed new school at Ysgol Parc y Bont will be a Welsh medium community primary school. The Isle of Anglesey County Council (the local authority) will be the admission authority. The admission number for pupils aged 4-11 at the new school in the first school year in which the proposals have been implemented is 14. The nursery will provide for 14 children who attend the school on a part-time basis. The new school's pupil capacity will be 104.

Pupils attending Ysgol Parc y Bont in the year prior to the new school opening will transfer to the new Welsh medium community primary school, subject to parental preference.

The Isle of Anglesey County Council's current school transport policy provides free transport for primary school pupils who meet each of the following criteria:

a) are of compulsory school age;
b) attend the nearest or the school designated by the Local Authority; and
c) where the distance from the home to the school is more than 2 miles.

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by 15 July 2016 any person may object to the proposals. Objections should be sent to the Programme Manager, Lifelong Learning Department, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW.

Signed

DELYTH MOLYNEUX (Head of Learning)
for the Isle of Anglesey County Council

Canon Robert Townsend
Director of Education, Diocese of Bangor

Date – 17 June 2016

EXPLANATORY NOTE

(This Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of clarification)

Ysgol Parc y Bont is currently a voluntary controlled school with a religious character of Church in Wales. It is proposed to close Ysgol Parc y Bont as a voluntary controlled school and establish a community school without a religious character on the site in the existing buildings.